**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1240
Ein cyf/Our ref EM/02219/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

21 Gorffennaf 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mehefin fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch *Deiseb P-06-1240 Gwella gwasanaethau iechyd i bobl ag epilepsi sy'n byw yng Nghymru*, a'r cwestiwn gan y pwyllgor am sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro bod gan bob bwrdd iechyd y lefel briodol o gymorth sydd ei angen ar bobl ag epilepsi.

Nododd Llywodraeth Cymru'r strategaeth, y weledigaeth a'r disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau niwrolegol, gan gynnwys epilepsi, drwy'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol (NCIG) a'r Arweinydd Clinigol cenedlaethol ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol wedi bod yn helpu i weithredu'r cynllun hwn, a byddant yn parhau i wneud hynny.

Mae'r NCIG a'r arweinydd clinigol wedi amlygu sawl her o ran monitro gwasanaethau i'r bobl hynny â chyflyrau niwrolegol, gan gynnwys argaeledd, ansawdd ac amseroldeb data sy'n gysylltiedig â chyflyrau niwrolegol, gan gynnwys epilepsi. Mae hwn yn faes lle mae cyfle i wneud gwelliannau, ac yn un sydd wedi'i flaenoriaethu gan yr arweinydd clinigol a'r NCIG, sydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r tîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddatblygu dangosfwrdd data ar gyfer epilepsi. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr o safbwynt monitro a sicrwydd, ond bydd hefyd yn helpu i gefnogi byrddau iechyd i ddatblygu achosion busnes ar gyfer datblygu gwasanaethau i bobl ag epilepsi wrth symud ymlaen. Mae fersiwn gynnar o'r dangosfwrdd wedi'i chyhoeddi, ond mae'r gwaith datblygu yn parhau i gynnwys profiad a adroddwyd gan gleifion a mesurau canlyniadau.

Mae trafodaethau hefyd ar y gweill ynghylch ychwanegu cyflyrau niwrolegol, gan gynnwys epilepsi, ar y dangosfwrdd cenedlaethol fel ffordd o fonitro gwasanaethau a nodi anghydraddoldebau (megis nifer y Nyrsys Epilepsi Arbenigol a llwyth achosion).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r NCIG wedi sicrhau cynrychiolaeth glinigol yn y rhaglen moderneiddio set ddata cleifion allanol fel rhan o'r rhaglen gofal wedi'i gynllunio, a fydd yn gwella ansawdd ac argaeledd data.

Wrth symud ymlaen, bydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol yn cael ei ddisodli gan y Datganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol. Mae'r Datganiad Ansawdd wedi'i ddatblygu gan y NCIG a bydd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Mae Datganiadau Ansawdd yn nodwedd allweddol a gyflwynwyd gan y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021) sy'n disgrifio sut y gall datblygu gwasanaethau gofal iechyd yn strategol wneud y GIG yng Nghymru yn addas i'r 21ain ganrif. Mae 'Datganiadau Ansawdd' yn nodi sut olwg sydd ar wasanaethau da o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion.

Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig ymateb i Ddatganiadau Ansawdd drwy eu prosesau cynllunio, a bydd monitro pob gwasanaeth, gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl ag epilepsi, yn cael ei wella'n sylweddol wrth i'r gwaith a ddechreuodd y NCIG i wella argaeledd, ansawdd ac amseroldeb data barhau i ddatblygu.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services